



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllaw budd i'r gymuned

Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 237/2018
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2018

Canllaw budd i'r gymuned

Cynulleidfa	Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch.
Trosolwg	Bydd y canllawiau a thempledi yn helpu'r sawl sy'n gyfrifol am fudd i'r gymuned ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd o dan Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif.
Camau i'w cymryd	Dylid defnyddio'r canllawiau wrth grynhoi budd i'r gymuned ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd o dan Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i: Cynllunio Busnes a Llywodraethiant mewn Addysg Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 03000 255294 e-bost: 21stcenturyschools@llyw.cymru
Copiau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.21stcenturyschools.org/?skip=1&lang=cy

Cynnwys

1.	Casglu data budd i'r gymuned	2
2.	Tendro ar gyfer contractau	3
3.	Meincnodau	4
4.	Dechrau prosiect	9
5.	Enghreifftiau	10
6.	Yn ystod y prosiect	13
7.	Diwedd prosiect	15
8.	Cwestiynau cyffredin	16

1. Casglu data budd i'r gymuned

1.1 Cyflwyniad

O fis Mai 2017, bydd angen i bob prosiect sy'n cael eu cymeradwyo yn y Rhaglen Ysgolion ac Addysg y 21ain Ganrif ddefnyddio Pecyn Cymorth Budd i'r Gymuned Gwerth Cymru. Mae defnyddio'r Pecyn Cymorth yn ein galluogi i gael darlun llawn o'r holl ganlyniadau Budd i'r Gymuned, gan gynnwys swyddi, mentrau cymorth addysgol a hyfforddiant, ac mae'n darparu ffordd gyson i fesur buddion o'r fath. Os yw eich prosiect wedi derbyn cyllid drwy'r Rhaglen bydd angen i chi gwblhau'r Pecyn Cymorth yn flynyddol.

Rydym hefyd yn gofyn i chi ganolbwyntio ar y buddion hynny sydd â'r gwerth mwyaf i'r sector addysg, ac adrodd yn ôl i ni yn chwarterol pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliadau ar gyfer taliadau. Y Buddion Cymunedol yr ydym yn eu targedu yn y dull hwn yw:

- Ymgeiswyr newydd (Swyddi a Grëwyd)
- Hyfforddiant
- Prentisiaethau
- Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)

Rydym hefyd yn monitro'r meysydd canlynol oherwydd eu bod wedi'u cysylltu i nodau ein rhaglen, ac yn benodol cynaliadwyedd:

- Ôl-troed carbon
- Lleihau lleoedd dros ben
- Gwellu cyflwr adeiladau ysgolion
- Lleihau Ôl-groniad o waith Cynnal a chadw
- Defnydd o ynni
- Lleihau allyriadau CO2
- Cynllun adeiladwyr ystyriol
- Gwastraff i safleoedd tirlenwi
- Nifer y damweiniau
- Y gweithlu
- Mentrau cadwyn gyflenwi Cymru
- Taliadau teg
- Mentrau Cymunedol

2. Tendro ar gyfer contractau

Wrth gyflwyno tendr ar gyfer prosiectau, mae'n hollbwysig bod y cleient yn esbonio'n glir pa amcanion Budd i'r Gymuned sydd eu hangen. Er y dylid annog y prif gontractwr i gyfrannu at y gwaith o gynllunio i gyflawni'r amcanion Budd i'r Gymuned, ni ddylai'r contractwr orfod bod yn bennaf gyfrifol am benderfynu beth fydd yr amcanion hynny.

Ar y cam cyflwyno tendr, dylai'r cleient gynnwys yn y gwahoddiad i dendro, y targedau budd i'r gymuned bydd y prosiect yn anelu at eu cyflawni. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei gwerthuso fel rhan o'r cynnig; a dylid cynnwys unrhyw fuddion eraill a gynigir gan gontractwr unigol yn y contract os bydd y contractwr yn llwyddo i ennill y tendr.

Dylid cynnwys y targedau sy'n rhan o'r contract yn y Busnes Achos Llawn/Achos Cyfiawnhad Busnes a byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn y llythyr grant pan fydd yr achos busnes yn cael ei gymeradwyo gan y Panel Cyfalaf.

Bydd y targedau sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr grant yn cael eu monitro'n chwarterol fel rhan o'n gwaith monitro ariannol. Mae proses fonitro flynyddol ac adroddiad terfynol i'w gwblhau pan fydd y prosiect yn dod i ben.

Mae'r fframweithiau rhanbarthol a'r academiâu sgiliau yn monitro'r data hwn a byddant yn fwy na pharod i gynorthwyo rheolwyr prosiect i bennu'r targedau hyn.

3. Meincnodau

Mae tîm Ysgolion y 21ain Ganrif wedi nodi'r disgwyliadau o ran y math o fudd i'r gymuned y dylid eu targedu ac maent wedi cynnwys meincnodau ar gyfer y targedau hyn. At ddiben gwybodaeth yn unig y mae angen rhywfaint o'r data ac nid yw wedi'i bennu fel targed caled.

Disgwylir i'r targedau recriwtio a hyfforddi gael eu cyflawni. Fodd bynnag, os yw'n anodd cyflawni'r rhain ar rai prosiectau penodol, er enghraifft oherwydd lleoliad y prosiect ac argaeledd y gweithlu, mae'n bosibl eu diwygio a chynyddu targedau eraill er mwyn gwrthbwysu'r gostyngiad.

Rydym yn ymwybodol y bydd rhai ardaloedd o Gymru mewn sefyllfa well i gyflawni'r meincnodau nac eraill. Er enghraifft, gallai prosiectau ar y ffin gael mwy o anhawster i recriwtio gweithlu lleol; gallai prosiectau gwledig gael anhawster i recriwtio prentisiaid.

Os na allwch gyflawni un o'r safonau, disgwylir i chi gynyddu eich safon mewn meysydd eraill. Er enghraifft, os yw prentisiaethau yn broblem, efallai y gallai mwy o ymgysylltu â dysgwyr fod yn briodol. Os bydd angen i chi ddiwygio'r targedau dylech gysylltu â thîm Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a fydd yn ystyried a yw'r targed diwygiedig yn briodol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r meincnodau gofynnol arfaethedig i'r partneriaid cyflenwi eu cyflawni drwy ein buddsoddiad. Dylech nodi mai meincnodau gofynnol yw'r rhain ac mae nifer o'n partneriaid cyflenwi eisoes yn rhagori arnynt. Rydym yn monitro cyflawniad yn chwarterol ac yn flynyddol.

Dylai pob prosiect geisio darparu'r meincnodau a nodir yn y tabl isod.

Maes Targed	Metrig	Gwerth y Meincnod	Enghraifft	Adrodd
Ymgeiswyr Newydd <i>Swyddi a Grëwyd</i>	Wythnosau person am bob £miliwn a fuddsoddiwyd	52	Diffiniad o berson ac wythnosau. Bydd hyn yn cynnwys 4 maes (Gweler isod)	Chwarterol
Hyfforddiant	Hyfforddiant (wedi'i gynnwys yn yr wythnosau Ymgeiswyr Newydd)	25	Diffiniad o hyfforddiant ac wythnosau (Gweler isod, dylai hyn fod o leiaf 25 o'r cyfanswm o 52 wythnos).	
Ymgeiswyr Newydd <i>Swyddi a Grëwyd</i>	Nifer yr unigolion sydd wedi'u cyflogi ar y prosiect (yn seiliedig ar ddarpariaeth 52 wythnos)	Diffiniwyd ar lefel y prosiect	Cyfanswm yr unigolion sydd wedi'u cyflogi yn y categori hwn.	Chwarterol

Prentisiaethau	Nifer y prentisiaid a gyflogir	Diffiniwyd ar lefel y prosiect	Cyfanswm y prentisiaid sydd wedi'u cyflogi ar y prosiect.	Chwarterol
Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)	Nifer y rhyngweithiadau â disgyblion yn ôl £miliwn a fuddsoddwyd	150	Gwasanaethau ysgolion neu wersi unigol Gwasanaeth gyda 70 o blant – 70 ymyrraeth. Gwers fathemateg gyda 30 o blant – 30 ymyrraeth.	Chwarterol
Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)	Oriau a roddwyd fesul £miliwn a fuddsoddwyd	10	Cyfraniad y tîm ehangach – cyfweiliadau, sioeau gyrfaoedd.	Chwarterol
Y Gweithlu	Canran y gweithlu o ardaloedd cod post Awdurdod Lleol (Mewn awdurdodau mwy, byddai angen rhannu hyn)	30	Defnyddio cod post y prosiect a mesur ymweliadau i'r safle	Blynyddol
Y Gweithlu	Canran y gweithlu o Gymru	60	Defnyddio cod post y prosiect a mesur ymweliadau i'r safle	Blynyddol
Teclyn Mesur Gwerth Cymru	Cwblhau Teclyn Mesur Llywodraeth Cymru	1	Cwblhau ar ôl cwblhau'r prosiect ac yn flynyddol	Blynyddol
Mentrau Cadwyn Gyflenwi Cymru				
Mentrau'r gadwyn gyflenwi	Canran o'r gwariant yng Nghymru fesul prosiect	Cynnig gan contractwr	Gwerth y contract a lleoliad y cyflenwr. Contractwr trydanol CBME cod post Caerdydd £100,000 mynegwyd gwerth y contract fel canran	Blynyddol
Mentrau'r gadwyn gyflenwi	Y nifer a'r math o ddeunyddiau a gynhyrchwyd yng Nghymru	Casglu Data	Dur Cymru, Llechi Cymru	Blynyddol
Mentrau'r gadwyn gyflenwi	Gwerth y deunyddiau a gynhyrchwyd yng Nghymru	Casglu data	£ fesul tunnell (Dur), £ fesul metr sgwâr (llechi)	Blynyddol

Mentrau'r gadwyn gyflenwi	Swm y deunyddiau a gynhyrchwyd yng Nghymru	Casglu data	Tunelli (Dur), nifer y metrau sgwâr (llechi)	Blynyddol
Mentrau'r gadwyn gyflenwi	Canran yr isgcontractwyr o Gymru fesul prosiect	Cynnig gan y contractwr	Cyfanswm nifer y contractwyr a ddefnyddiwyd gyda chod post o Gymru wedi'i fynegi fel canran	Blynyddol
Mentrau'r gadwyn gyflenwi	Nifer yr ymgysylltiadau â'r gadwyn gyflenwi fesul prosiect	2	Digwyddiad cwrdd â'r prynwr	Blynyddol
Mentrau'r gadwyn gyflenwi	Defnyddio GwerthwchiGymru i hysbysebu cyfleoedd	Cynnig gan y contractwr	Hysbysebu cyfle i isgcontractwyr drwy GwerthwchiGymru	Blynyddol
Taliad teg	Taliad o fewn 10 diwrnod gan y cleient		Archwilio canran y taliadau	Blynyddol
Taliad teg	Taliad i isgcontractwyr o fewn 23 diwrnod		Archwilio canran y targedau	Blynyddol
Amgylcheddol	Canran y gwastraff a ailgyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi	85	Mesurwyd o nodyn cyngor trosglwyddo gwastraff	Blynyddol
Amgylcheddol	Swm y gwastraff a gynhyrchwyd tunnell/£miliwn	10	Mesurwyd o nodyn cyngor trosglwyddo gwastraff	Blynyddol
Cymunedol	Mentrau cymunedol fesul prosiect	2	Gwaith gyda grŵp sgowtiaid lleol i ailbeintio neuadd	Blynyddol
Cymunedol	Cylchlythyrau cymunedol fesul prosiect	2	Anfonwyd llythyr at y trigolion lleol	Blynyddol

3.1 Diffiniad o Bob Maes Targed

3.1.1 Swyddi a grëwyd

Am bob £miliwn o werth contract (cyfanswm cost yr adeilad, nid gwerth y prosiect) a ddarparwyd, dylai'r Contractwr ddarparu o leiaf 52 wythnos person o gyflogaeth ar gyfer Ymgeiswyr Newydd (Swyddi a grëwyd).

3.1.2 Wythnos Person

Person a gyflogir am 5 diwrnod ar safle.

Mae hyn yn golygu bod yr hyn sy'n gyfwerth ag un person yn cael ei gyflogi am bum niwrnod naill ai ar y datblygiad neu drwy gymysgedd o waith ar y datblygiad a rhywle arall, fel y cytunwyd gyda'r cleient.

3.1.3 Gall Ymgeisydd Newydd fod yn berson sy'n un o'r pedwar categori hyn:

- Yn gadael sefydliad addysgol neu ddarparwr hyfforddiant.
- Person heb ei gyflogi (sydd wedi cofrestru gyda chanolfan gwaith), person sy'n gadael ysgol neu goleg, neu oedolyn nad ydynt wedi'u cyflogi yn y diwydiant adeiladu.
- Hyfforddeion Eraill – Y rhai nad ydynt yn Brentisiaid ond sydd â chontract cyflogaeth neu sy'n hunangyflogedig. Gallent fod yn fyfyrwr graddedig ar flwyddyn allan.
- Prentis – Person sydd wedi cofrestru fel prentis gyda chorff wedi'i gydnabod gan y diwydiant.

Tabl yn dangos sut mae'r 52 wythnos person wedi'u rhannu rhwng y 4 categori.

1	Gadael sefydliad addysgol neu ddarparwr hyfforddiant.	27 wythnos	Cyfanswm o 52 wythnos fesul £miliwn
2	Person heb ei gyflogi (sydd wedi cofrestru gyda chanolfan gwaith), person sy'n gadael ysgol neu goleg, neu oedolyn nad ydynt wedi'u cyflogi yn y diwydiant adeiladu.		
3	Hyfforddeion Eraill – Y rhai nad ydynt yn Brentisiaid ond sydd â chontract cyflogaeth neu sy'n hunangyflogedig. Gallent fod yn fyfyrwr graddedig ar flwyddyn allan.	25 wythnos	
4	Prentis – Person sydd wedi cofrestru fel prentis gyda chorff wedi'i gydnabod gan y diwydiant.		

3.2 Sut y dylid cofnodi wythnosau Ymgeisydd Newydd a Hyfforddiant fesul £miliwn?

3.2.1 Hyfforddiant

Mae hyn yn cwmpasu pob cymhwyster hyfforddi perthnasol gan gynnwys NVQ, diplomâu a hyfforddiant i raddedigion.

3.2.2 Prentisiaethau

Hyrwyddo'r defnydd o Y Prentis/ Cyfle neu gynlluniau eraill i brentisiaid.

3.2.3 Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)

Gallai ymgysylltiad â disgyblion gynnwys gwasanaethau ysgol gyfan, gwersi, llysgenhadon Disgyblion neu heriau ysgol/grŵp. Nid yw'r amser a roddir yma yn cael ei nodi yn yr oriau a roddir. Ni ddylech ddefnyddio 1 awr yn cynnal gwasanaeth i 240 o blant fel un awr a roddir a 240 o ryngweithiadau â disgyblion. Dim ond mewn un maes targed y gellir ei ddefnyddio.

3.2.4 Oriau a Roddwyd

Dyma pan fydd y tîm cyflenwi cyfan yn cyfrannu at weithgarwch/weithgareddau ymgysylltu sy'n cael eu cofnodi mewn oriau. E.e. ffair gyrfaoedd sy'n cael ei mynychu gan y pensaer, peiriannydd strwythurol, rheolwr prosiect, rheolwr costau, peiriannydd gyda phob un yn rhoi 2 awr o'u hamser. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 10 awr a roddwyd.

3.2.5 Deunyddiau o Gymru

Rydym yn cofnodi'r gwariant a'r swm o ddeunyddiau o Gymru. Er enghraifft, pan fydd dur yn elfen hollbwysig o'r adeilad, byddwn yn cofnodi gwerth a'r swm o ddur a brynwyd. Gallai enghreifftiau eraill gynnwys y defnydd o bren neu lechi o Gymru.

3.2.6 Monitro Budd i'r Gymuned

Ar ddechrau pob prosiect bydd yn rhaid i bob Awdurdod Lleol gwblhau ffurflen sy'n rhoi gwybodaeth am y prosiect. Bydd y ffurflen yn cynnwys adran ar fuddion cymunedol, fel yr un isod. Yr adran hon a ddefnyddir i nodi targedau eich prosiect, yn unol â'n meincnodau gofynnol.

4. Dechrau prosiect

Pennu eich meincnodau ar ddechrau'r prosiect.

Gwerth y Contract (Yn seiliedig ar gyfanswm cost yr Adeilad (Yn unol ag Adran 5 y ffurflen cost fesul prosiect) £4,000,000						
Prosiect/Ysgol	Ymgeisydd Newydd		Prentisiaethau	Hyfforddiant (gan gynnwys graddedigion, lleoliadau gwaith, lleoliadau disgyblion, prentisiaethau)	Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)	
	Wythnosau Person fesul cyfanswm cost yr adeilad	Nifer yr Ymgeiswyr Newydd	Nifer y prentisiaid (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd fesul cyfanswm cost yr adeilad (wedi'u cynnwys yn yr wythnosau ymgeiswyr newydd)	Nifer y rhyngw eithiadau â disgyblion (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Oriau a roddwyd (fesul cyfanswm cost yr adeilad)
Enghraifft 1	208	2	2	100	600	40
Meincnodau Llywodraeth Cymru	52x 4 l'w gadarnhau (gwerth contract £4miliwn)	Bydd hyn yn cynnwys faint bynnag o ymgeiswyr newydd a grëwyd drwy'r wythnosau a ddarparwyd.		25x 4 l'w gadarnhau (gwerth contract £4miliwn) gadarnhau (gwerth contract £4 miliwn) (gwerth contract £4 miliwn))	150 x4 l'w gadarnhau (gwerth contract £4 miliwn)	10x 4 l'w gadarnhau (gwerth contract £4 miliwn)

5. Enghreifftiau

Enghraifft 1

Enghraifft o brosiect â gwerth contract o £3miliwn

Prosiect/Ysgol	Ymgeisydd Newydd		Prentisiaethau	Hyfforddiant (gan gynnwys graddedigion, lleoliadau gwaith, lleoliadau disgyblion, prentisiaethau)	Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)	
	Wythnosau Person fesul cyfanswm cost yr adeilad	Nifer yr Ymgeiswyr Newydd	Nifer y prentisiaid (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd fesul cyfanswm cost yr adeilad (wedi'u cynnwys yn yr wythnosau ymgeiswyr newydd)	Nifer y rhyngweithiadau â disgyblion (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Oriau a roddwyd (fesul cyfanswm cost yr adeilad)
Enghraifft 1	156 (Mae 81 wythnos o 156 yn gategori 1 a 2 ac mae 75 wythnos yn gategori 3 a 4 fel yn y diffiniadau)	i'w ddiffinio ar lefel y prosiect e.e. 2	i'w ddiffinio ar lefel y prosiect e.e. 4	75 (categori 3 a 4 fel yn y diffiniadau)	450	30

Enghraifft 2

Oherwydd natur y prosiect, mae'r enghraifft hon yn un lle na allant gyflogi prentisiaid ond mae ganddynt fwy o ryngweithiadau â disgyblion. Gallai hyn fod yn wasanaeth ysgol gyfan (240 disgybl mewn ysgol gynradd).

Yn seiliedig ar gyfanswm cost yr Adeilad: £3,000,000						
Prosiect/Ysgol	Ymgeisydd Newydd		Prentisiaethau	Hyfforddiant (gan gynnwys graddedigion, lleoliadau gwaith, lleoliadau disgyblion, prentisiaethau)	Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)	
	Wythnosau Person fesul cyfanswm cost yr adeilad	Nifer yr Ymgeiswyr Newydd	Nifer y prentisiaid (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd fesul cyfanswm cost yr adeilad (wedi'u cynnwys yn yr wythnosau ymgeiswyr newydd)	Nifer y rhyngweithiadau â disgyblion (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Oriau a roddwyd (fesul cyfanswm cost yr adeilad)
Enghraifft 2	156 (Mae 81 wythnos o 156 yn gategori 1 a 2 ac mae 75 wythnos yn gategori 3 a 4 fel yn y diffiniadau)	i'w ddiffinio ar lefel y prosiect e.e. 2	nid yw'n gyflawnadwy felly ymgysylltiad pellach ag ysgolion	75 (categori 3 a 4 fel yn y diffiniadau)	690 (450 ac un gwasanaeth ychwanegol o 240 disgybl)	30

Enghraifft 3

Ni all y prosiect hwn gyflawni'r meincnod rhyngweithio â disgyblion. Fodd bynnag, mae'r contractwr wedi rhoi mwy o oriau drwy nifer o Ffeiriau Gyrfaedd.

Yn seiliedig ar gyfanswm cost yr Adeilad: £3,000,000						
Prosiect/Ysgol	Ymgeisydd Newydd		Prentisiaethau	Hyfforddiant (gan gynnwys graddedigion, lleoliadau gwaith, lleoliadau disgyblion, prentisiaethau)	Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)	
	Wythnosau Person fesul cyfanswm cost yr adeilad	Nifer yr Ymgeiswyr Newydd	Nifer y prentisiaid (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd fesul cyfanswm cost yr adeilad (wedi'u cynnwys yn yr wythnosau ymgeiswyr newydd)	Nifer y rhyngweithiadau â disgyblion (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Oriau a roddwyd (fesul cyfanswm cost yr adeilad)
Enghraifft 2	156 (Mae 81 wythnos o 156 yn gategori 1 a 2 ac mae 75 wythnos yn gategori 3 a 4 fel yn y diffiniadau)	i'w ddiffinio ar lefel y prosiect e.e. 2	i'w ddiffinio ar lefel y prosiect e.e. 4	75 (categori 3 a 4 fel yn y diffiniadau)	50 dylai fod yn 450	240 dylai fod yn 30

6. Yn ystod y prosiect

Ym mhob cam o gynnydd yn y prosiect, dylai Awdurdodau Lleol gyflwyno diweddariad o'u cynnydd chwarterol ar fudd i'r gymuned. Dylai'r ffigurau cronus hyn gynnwys y niferoedd gwirioneddol o bobl sydd wedi'u cyflogi, hyfforddeion a phrentisiaid.

Prosiect/Ysgol	Ymgeisydd Newydd		Prentisiaethau	Hyfforddiant (gan gynnwys graddedigion, lleoliadau gwaith, lleoliadau disgyblion, prentisiaethau)	Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)	
	Wythnosau Person fesul cyfanswm cost yr adeilad	Nifer yr Ymgeiswyr Newydd	Nifer y prentisiaid (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd fesul cyfanswm cost yr adeilad (wedi'u cynnwys yn yr wythnosau ymgeiswyr newydd)	Nifer y rhyngw eithiadau â disgyblion (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Oriau a roddwyd (fesul cyfanswm cost yr adeilad)
Enghraifft 1	Cyfanswm wythnosau Ymgeiswyr Newydd (wythnosau gwirioneddol)	Nifer yr Ymgeiswyr Newydd (nifer gwirioneddol)	Nifer y prentisiaid (nifer gwirioneddol)	Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd (nifer gwirioneddol o wythnosau)	Oriau a roddwyd (nifer gwirioneddol)	Oriau a roddwyd (nifer gwirioneddol)

**Bydd yr hyn a gofnodir uchod yn niferoedd gwirioneddol a gyflwynir yn chwarterol. Bydd y rhain yn cael eu monitro gan Lywodraeth Cymru a byddwn yn edrych arnynt yn ystod ein cyfnod hawliadau.*

6.1 Canllaw Monitro Chwarterol

Byddwn yn edrych ar eich ffurflen fonitro chwarterol pan wneir hawliadau am daliadau.

Dilynwch y cyfarwyddiadau isod i'n helpu i gasglu'r holl ddata yn fwy effeithiol.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio 1 rhes fesul prosiect.
- Ni ddylech gyfuno'r celloedd oherwydd bydd hyn yn anhrefnu'r data rydym yn ei gasglu.
- Disgwylwch y byddwn yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar sail gronns bob chwarter.
- Os nad yw'r wybodaeth yr ydym yn gofyn amdani ar gael ar adeg cyflwyno eich ffurflen gais, nodwch Dd/G (ddim ar gael). Byddwn yn disgwyl diweddariad yn y chwarter dilynol.

Mae'r amserlen fonitro chwarterol fel a ganlyn:

Chwarter 1 Ebrill - Mehefin
 Chwarter 2 Gorffennaf - Medi
 Chwarter 3 Hydref - Rhagfyr

Mae'r holl gyfansymiau yn gyfansymiau rhedeg cronrus ar gyfer y prosiectau.

Bydd y llyfr gwaith hwn yn ddefnyddiol ar gyfer cwblhau prosiectau oherwydd ei fod yn cynnwys cyfansymiau rhedeg, felly bydd y wybodaeth derfynol wedi'i pharatoi ar gyfer yr adroddiad cwblhau.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau pellach neu unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â rhaglen fuddsoddi eich ysgol, cysylltwch ag aelod o'r tîm Ysgolion y 21ain Ganrif 21stcenturyschools@gov.wales. Byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl.

6.2 Adrodd Blynyddol

Ar ôl Mawrth 31^{ain} byddwn yn disgwyl derbyn y diweddariad blynyddol ar eich gwybodaeth budd i'r gymuned, sy'n nodi'r buddion a gyflawnwyd yn erbyn prosiectau unigol. Dyma'r adrannau yn eich llyfryn y dylech fod wedi'u cwblhau erbyn y pwynt hwn.

Awdurdod Lleol / Sefydliad	Ysgol / Prosiect	Y Gweithlu		Teclyn Mesur Llywodraeth Cymru
		Canran y gweithlu o'r cod post	Canran y gweithlu o Gymru	Cwblhau Teclyn mesur Llywodraeth Cymru

Mentrau'r gadwyn gyflenwi						
Canran y gwariant yng Nghymru fesul prosiect	Y nifer a'r math o ddeunyddiau a gynhyrchwyd yng Nghymru	Gwerth y deunydd	Swm y deunydd	Canran yr isgontractwyr o Gymru fesul prosiect	Nifer yr ymgysylltiadau â'r gadwyn gyflenwi fesul prosiect	Defnyddio GwerthwchiGymru i hysbysebu cyfleoedd

Taliadau teg		Amgylcheddol		Cymunedol	
Taliad o fewn 10 diwrnod gan y cleient	Taliad i'r isgontractwyr o fewn 23 diwrnod	Canran y gwastraff a arallgyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi	Swm y gwastraff a gynhyrchwyd tunelli/£miliwn	Mentrau cymunedol fesul prosiect	Cylchlythyracymunedol fesul prosiect

7. Diwedd prosiect

Ar ôl cwblhau'r prosiect disgwylir i chi gwblhau adroddiad terfynol. Bydd hyn yn rhoi amlinelliad o'r cyflawniadau yn erbyn y targedau budd i'r gymuned y byddwch wedi'u pennu ar ddechrau'r prosiect. Bydd angen cadarnhad ar Lywodraeth Cymru eich bod wedi cyflawni'r targedau budd i'r gymuned.

Prosiect/Ysgol	Ymgeisydd Newydd		Prentisiaethau	Hyfforddiant (gan gynnwys graddedigion, lleoliadau gwaith, lleoliadau disgyblion, prentisiaethau)	Ymgysylltiad Ysgolion (STEM)	
	Wythnosau Person fesul cyfanswm cost yr adeilad	Nifer yr Ymgeiswyr Newydd	Nifer y prentisiaid (fesul cyfanswm cost yr adeilad)	Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd fesul cyfanswm cost yr adeilad (wedi'u cynnwys yn yr wythnosau ymgeiswyr newydd)	Nifer y rhyngw eithiada u â disgybli on (fesul cyfansw m cost yr adeilad)	Oriau a roddwyd (fesul cyfans wm cost yr adeilad)
Enghraifft 1	Cyfanswm wythnosau Ymgeiswyr Newydd (wythnosau gwirioneddol)	Nifer yr Ymgeiswyr Newydd (nifer gwirioneddol)	Nifer y prentisiaid (nifer gwirioneddol)	Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd (nifer gwirioneddol o wythnosau)	Oriau a roddwyd (nifer gwirione ddol)	Oriau a roddwyd (nifer gwirion eddol)

8. Cwestiynau cyffredin

1. A yw'n ofynnol i brosiectau sy'n cael eu caffael cyn cyflwyno'r meincnodau hyn gasglu gwybodaeth am fudd i'r gymuned?
Bydd yr offer ond yn berthnasol i brosiectau newydd sy'n weithredol ar ôl Mai 2017. Fodd bynnag, os bydd cyfle i sicrhau unrhyw fudd i'r gymuned o brosiectau presennol, dylech eu cofnodi.
2. A yw'n ofynnol i brosiectau sy'n cael eu caffael cyn cyflwyno'r meincnodau hyn fonitro ac adrodd yn chwarterol?
Bydd yr offer ond yn berthnasol i brosiectau newydd sy'n weithredol ar ôl Mai 2017. Fodd bynnag, os ydych yn derbyn gwybodaeth budd i'r gymuned ar gyfer prosiectau presennol, byddai'n ddefnyddiol i chi gwblhau'r ffurflen fonitro.
3. Beth yw diben y wybodaeth, pa ddefnydd a wneir ohoni?
Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn cael ei defnyddio i wirio cynnydd prosiect, hybu cyflawniadau'r Rhaglen a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Weinidogion am y buddion sy'n cael eu darparu. Defnyddir y wybodaeth hefyd i adrodd am gyflawniad yn erbyn amcanion ehangach Llywodraeth Cymru.
4. A oes unrhyw gynlluniau i ddadansoddi'r allbynnau er mwyn hysbysu targedau a chanllawiau yn y dyfodol?
Oes, bydd y data yn cael ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i hysbysu meincnodau a fydd yn cael eu pennu yn y dyfodol.
5. Mae'r contractwyr a'r cleientiaid eisoes yn cwblhau nifer o offerynnau budd i'r gymuned, sut ydym ni'n symleiddio'r broses?
Gwnaed gwaith i geisio alinio'r offer gwahanol sydd eu hangen i gofnodi data budd i'r Gymuned ond yn anffodus nid oes unrhyw borthol addas ar hyn o bryd ar gyfer cofnodi'r holl ddata. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn edrych arno yn y dyfodol.
6. Hoffwn ddeall sut mae'r offer newydd hwn yn gweithio a beth yw'r ffordd briodol o'i ddefnyddio?
Wrth gyflwyno ffurflen hawlio grantiau bob chwarter, disgwylir i chi hefyd gwblhau'r offer monitro budd i'r gymuned. Dylai'r offer monitro gynnwys cyfansymiau cronus sy'n dangos y cynnydd hyd yma. Ar ôl cwblhau prosiect, byddwn yn disgwyl gweld y cyfansymiau cronus terfynol yn eich adroddiad terfynol. Dylai'r adroddiad hwn gymharu cyflawniadau prosiect gyda'r targedau a bennwyd ar ddechrau'r prosiect. Mae'n bosibl rhannu'r wybodaeth hon yn rhwydd gyda Gweinidogion.
7. A ddylai'r dull monitro a gyflwynir fod yn amrywiaeth ar y fanyleb gaffael wreiddiol ac a fydd yn golygu bod gan y Contractwr hawl i gost ychwanegol?
Na, nid oes angen amrywio contractau sy'n bodoli eisoes. Dylid defnyddio'r targedau ar gyfer prosiectau newydd o fis Mai 2017 er mwyn i gontractwyr allu ystyried hyn ym mhrisiau eu cynnig. Nid oes disgwyliad i gostau/adnoddau ychwanegol a ysgwyddir.

8. Sut wnaethoch chi lunio'r meincnodau?
Datblygwyd y meincnodau yn unol â Gwerth Cymru ac maent yn seiliedig ar y data a dderbyniwyd ar gyfer prosiectau a gyflenwyd ym Mand A.
9. Os yw'r prosiect yn cynnwys dymchwel, a oes angen yr un meincnodau arnoch?
Rydym yn ystyried natur y prosiect ac ni fyddem yn disgwyl gweld yr un meincnodau ar gyfer dymchwel â'r rhai ar gyfer datblygu ysgol. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i rai o'r buddion cymunedol gael eu cyflawni.
10. Os bydd Awdurdod Lleol yn cael anhawster i gyflawni meincnodau mewn un maes, faint y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei gael mewn meysydd eraill, fel iawndal?
(Er enghraifft, os bydd un swydd yn cael ei chreu ar gyfer prosiect £3 miliwn pa dargedau eraill y dylid eu cynyddu?)
Nid oes fformiwla benodol; ein bwriad yw sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer y buddsoddiad.
Ystyrir pob achos ar ei rinweddau ei hun.
11. Beth sy'n digwydd os na allwn gyflawni'r targedau a bennwyd?
Rydym yn disgwyl i Awdurdodau Lleol gyflawni ein meincnodau gofynnol o leiaf; Gallai methiant i gyflawni'r meincnodau gofynnol o leiaf effeithio ar ryddhau arian cadw.
12. Cafodd y mwyafrif o'r prosiectau ym Mand A eu neilltuo cyn Mai 2017. Nid yw'n bosibl mynd yn ôl a chasglu gwybodaeth na wnaethom ofyn amdani o'r cychwyn. A ddylem ni anfon gwybodaeth a gasglwyd ar gyfer prosiectau cyn y dyddiad hwn yn y fformat rydym yn ei ddefnyddio yn awr?
Ie. Mae angen i ni gyflawni'r canlyniadau gorau posibl o brosiectau sydd eisoes wedi'u neilltuo ond rydym yn gwerthfawrogi na fydd y canlyniadau yn cyd-fynd â'r gofynion presennol mewn nifer o achosion.
13. A oes unrhyw gynlluniau i ddadansoddi'r allbynnau i lywio targedau a chanllawiau yn y dyfodol?
Oes, byddwn yn parhau i adolygu'r targedau a'r canllawiau.
14. Mae'r targedau buddion cymunedol wedi newid ers y tendr, a fydd hyn yn effeithio ar unrhyw beth?
Mae'n bosibl symud y targedau TRT rhwng meysydd ond mae'r targed cyffredinol yn berthnasol. Mae angen cytuno ar unrhyw newidiadau rhwng y meysydd targed gwahanol gyda'r tîm Ysgolion y 21ain Ganrif ymlaen llaw.
15. Allwch chi gadarnhau beth yw canlyniadau tangyflawni?
Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio bod mor hyblyg â phosibl. Os ydych yn credu y byddwch yn tangyflawni unrhyw un o'ch targedau, cysylltwch â thîm Ysgolion y 21ain Ganrif a gallwn gynghori neu ddiwygio cytundebau yn ôl yr angen.
16. A fyddwch chi'n ystyried y ffactorau hyn ac a fydd y tîm yn cael 'cydbwyso' eu hallbynnau mewn meysydd eraill?

Bydd angen delio â hyn ar sail achosion unigol, gyda chytundeb gan y tîm Ysgolion y 21ain Ganrif.

17. A fyddai'n bosibl cael hyfforddiant pellach ar yr offer monitro budd i'r gymuned?
Byddwn yn cynnal seminarau budd i'r gymuned ar gyfer ein partneriaid cyflenwi yn y man.
18. Canllawiau ar ba weithgareddau sy'n dderbyniol ar gyfer oriau STEM?
Nid oes angen i'r gweithgareddau ar gyfer oriau STEM gael eu cyflawni gan y contractwyr yn unig. Gall yr awdurdod lleol neu swyddogion y coleg wneud hyn, er enghraifft penseiri neu Beirianwyr. Un enghraifft bosibl o weithgareddau fyddai her adeiladu wedi'i phennu gan y Pensaer neu Ffair Gyrfaedd ar gyfer ysgolion bwydo ysgolion Uwchradd, wedi'i threfnu gan yr Awdurdodau Lleol.
19. Mae contractwyr yn cael anhawster gyda'r "gallu staffio a'r sylfaen sgiliau" i gynnal gwersi ac maent yn holi a allai'r athrawon yn yr ysgolion perthnasol gynnal y sesiynau dosbarth ac a fyddai'r contractwyr yn barod i'w helpu mewn rôl gefnogol?
Gallant, nid ydym yn disgwyl i gontractwyr fod yn athrawon. Rydym eisiau iddynt gefnogi gwers, er enghraifft mesur iard chwarae ar gyfer gwers fathemateg neu gyfrannu mewn gwasanaeth ar beryglon safleoedd adeiladu (er enghraifft defnyddio Ivor Goodsite).
20. Pam fod y meincnod ar gyfer oriau contractwr STEM wedi'i newid o 100 i 10?
Rydym yn annog ein partneriaid cyflenwi i gyflawni cymaint o oriau ag y gallant. Rydym wedi derbyn adborth nad oedd rhai'n hyderus y byddent yn cyflawni targed o 100 awr, felly fe wnaethom ystyried yr adborth hwn a lleihau'r meincnod i o leiaf 10 awr fesul £miliwn a fuddsoddir. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd llawer o Awdurdodau Lleol yn rhagori ar y meincnod hwn, a byddem yn croesawu hynny.
21. Sut ddylem ni gasglu gwybodaeth am fudd i'r gymuned ar gyfer y prosiectau sy'n cael eu cynnal rhwng Mai 2017 – Tachwedd 2017, os cafodd y targed ei bennu gan ddilyn 100 awr contractwyr o STEM yn hytrach na'r 10 awr?
Dylid cofnodi'r oriau gwirioneddol sy'n cael eu cyflawni. Mae'n bwysig eich bod yn cadw mewn cysylltiad â ni os ydych yn credu na allwch gyflawni eich targedau a bennwyd ar ddechrau'r prosiect. Pan gyflwynir yr adroddiad cwblhau ar gyfer y prosiect, bydd angen i chi nodi bod targed yr oriau contractwyr wedi'i ddiwygio yn dilyn cyhoeddi eich llythyr cytundeb.
22. Allwn ni gael yr opsiwn i leihau'r targedau STEM ar gyfer cynlluniau sydd eisoes wedi'u neilltuo?
Gallwch, byddai hyn yn bosibl os ydych wedi pennu eich targedau ar gyfer adrannau eraill ar lefel ein meincnodau gofynnol. Fodd bynnag, byddai angen i ni gael manylion y prosiect yr ydych yn cyfeirio ato yn hytrach na rhoi ateb damcaniaethol, oherwydd efallai ein bod eisoes wedi gwneud lwfansau ar gyfer targedau eraill oherwydd cynnydd mewn ymgysylltiad STEM.

23. A ydych yn lleihau'r targed rhyngweithio yn unol ag oriau STEM, h.y. 10 rhyngweithiad fesul £miliwn? (Rwy'n tybio na, os ydych yn ystyried gwasanaeth ysgol gyda 50 o ddisgyblion fel 50 rhyngweithiad, ond hoffwn gael eglurhad).
Na, byddai'r rhyngweithiadau fesul disgybl, felly byddwn yn parhau i ddisgwyl y niferoedd targed o rhyngweithiadau disgyblion; dim ond y targed oriau contractwyr sydd wedi newid.
24. A fydd gennym fynediad at ddata targed blynyddol ac astudiaethau achos i feincodi ein cynlluniau a dysgu gan eraill?
Bydd hyn yn helpu i bennu targedau realistig ac ystyrlon yn y cam tendro – Rydym yn casglu'r data a fydd yn darparu adborth yn y dyfodol, ond mae hyn ar gam cynnar yn awr.
25. Sut mae Llywodraeth Cymru yn cyfleu'r targed diwygiedig hwn a'r canllaw, a phryd? (Allwn ni hysbysu ein contractwyr ar y fframwaith, eu swyddogion budd i'r gymuned a grŵp rheoli'r fframwaith?)
Byddwn yn anfon llythyr yn y man at bob Awdurdod Lleol yn cadarnhau'r gostyngiad yn nifer yr oriau STEM fesul miliynau a fuddsoddir. Bydd canllaw mwy cyflawn yn cael ei gynnwys gyda'r llythyr hwn, mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr.
26. Beth ydym ni'n ei wneud ynglŷn â'r prosiectau hynny lle mae'r oriau wedi'u cyfrifo fesul nifer y disgyblion yn hytrach nac oriau a dreulir?
Rydym yn monitro'r ddau faes hyn ar wahân. Gallai'r rhyngweithiad disgyblion fod yn 1 gwasanaeth dwy awr ysgol gyfan (240 disgybl) sy'n rhoi 480 o rhyngweithiadau disgyblion ond ni allwch gyfrif hyn ddwy waith fel 2 awr yn yr oriau a roddir gennych. Mae diffiniad o bob maes targed yn y canllaw.
27. Wythnosau person fesul miliwn a fuddsoddwyd - mae hyn yn golygu cyfanswm yr wythnosau person a gyflawnir yn erbyn y targed a bennwyd, sef tua 52 wythnos fesul £miliwn?
Ydy, dyma yw'r meincnod gofynnol.
- Nifer y FTE fesul £miliwn a fuddsoddwyd - mae hyn yn golygu'r nifer o bobl ddi-waith â swyddi - p'un a ydynt yn aros am 2 wythnos neu 52 wythnos - cronrus?
Ie, bydd hyn yn cael ei gyfrifo yn ôl faint bynnag o ymgeiswyr newydd sydd wedi'u creu drwy'r wythnosau a ddarparwyd.
28. Wythnosau person o hyfforddiant a ddarparwyd fesul £miliwn a fuddsoddwyd – mae hyn yn cynnwys cyfrif hyfforddeion, prentisiaid, yn ogystal â phrofiadau gwaith, graddedigion, interniaethau presennol.
Ydy
29. Nifer y prentisiaid fesul £m a fuddsoddwyd – ai nifer y graddedigion newydd a'r prentisiaid a rennir sy'n gweithio ar y safle yn unig yw hyn neu a ydym yn cyfrif hyfforddeion a phrofiad gwaith hefyd?
Bydd pob un o'r rhain yn ffurfio rhan o'r Ymgeiswyr Newydd. Gweler y diffiniad yn y canllaw.